

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd, y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022.

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
25 Tachwedd 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu cynllun cymorth ariannol dynamig mewn perthynas â'r sector morol, y sector pysgodfeydd a'r sector dyframaethu yng Nghymru.
- 1.2 Rhoddir swyddogaethau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â darparu'n ymarferol gymorth ariannol y Cynllun i Weinidogion Cymru.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 11 Hydref 2022 (cyfeirnod SL(6)260), tynnwyd y Rheoliadau drafft gwreiddiol yn ôl. Mae newidiadau wedi'u gwneud i adlewyrchu'r materion a godwyd. Mae'r Memorandwm Esboniadol bellach yn cynnwys hefyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae paragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Pysgodfeydd y DU 2020 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi neu drefnu cymorth ariannol at ddiben naw pwrpas rhagnodedig. Rhaid rhoi'r cymorth ariannol, a all fod ar ffurf grant neu fenthyciad, o dan neu'n unol â chynllun a sefydlir drwy Reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.
- 3.2 Mae'r offeryn hwn yn sefydlu cynllun o'r fath ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi grantiau a benthyciadau mewn perthynas â Chymru, parth Cymru neu gychod pysgota Cymru ar gyfer y gweithgareddau a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Yn sgil y ffaith bod y DU wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac yn dilyn diwedd Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (CMPHE), nid yw Cymru mwyach yn un o fuddiolwyr y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ac mae'r pwerau cymorth ariannol a oedd yn arfer cael eu harfer gan Weinidogion Cymru drwy [Reoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop \(Grantiau\) \(Cymru\) 2016](#) bellach wedi darfod.
- 4.2 Felly, ar hyn o bryd, nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau cymorth ariannol penodol o ran y sector morol na'r sector pysgodfeydd. Bydd yr offeryn hwn yn cywiro hynny.
- 4.3 Mae'r cynllun a gaiff ei greu gan yr offeryn hwn yn sicrhau parhad i raddau helaeth i gynlluniau cyllido blaenorol ond mae'n cynnig mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y caiff y cynllun ei reoli yn y tymor hwy (y tu

hwnt i fframwaith rheoleiddio'r UE) gan barhau'n gyson â chytundebau rhyngwladol megis y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

- 4.4 Bydd y cynllun yn galluogi Gweinidogion Cymru i barhau i gyllido gweithgareddau penodol er mwyn buddsoddi yn y sector morol, y sector pysgodfeydd a'r sector dyframaethu yng Nghymru a darparu cymorth ariannol er mwyn datblygu'r Nodau Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- 4.5 Mae'r Rheoliadau yn galluogi rhoi cymorth ariannol mewn perthynas â Chymru, parth Cymru a chychod pysgota Cymru yn unol â pharagraff 2(3) o Atodlen 6 i Ddeddf Pysgodfeydd y DU 2020.
- 4.6 O dan y cynllun a gaiff ei greu gan y Rheoliadau, gall Gweinidogion Cymru ddewis darparu cymorth ariannol (drwy grantiau neu fenthyciadau) ar gyfer y gweithgareddau a bennir yn yr Atodlen i'r graddau bod hynny'n gyson â'r dibenion y'u rhestrir oddi tanynt.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid yw Deddf Pysgodfeydd 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau o dan eu pwerau ym mharagraff 2(1) a (2) o Atodlen 6 i'r Ddeddf.
- 5.2 Roedd ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd a gynhaliwyd rhwng 1 Mai 2019 a 21 Awst 2019 yn cynnwys cwestiynau penodol ynghylch trefniadau cyllido ar ôl ymadael â'r UE. Cyhoeddwyd [crynodeb o'r ymatebion](#) ar 14 Medi 2020.
- 5.3 Un o'r pwyntiau allweddol a godwyd oedd yr angen i ymgorffori mesurau gwarchod yr amgylchedd mewn penderfyniadau ynghylch cyllido gweithgareddau cynhyrchu bwyd môr.
- 5.4 Un o'r prif feirniadaethau o'r CMPHE yng Nghymru oedd ei diffyg hyblygrwydd. Mae'r Rheoliadau yn anelu at sicrhau mwy o hyblygrwydd wrth ddarparu cymorth ariannol i'r sector morol, y sector pysgodfeydd a'r sector dyframaethu yng Nghymru.
- 5.5 Bydd cwmpas polisi'r cynllun hwn yn dra thebyg i gwmpas polisi'r CMPHE ond mae'n galluogi dilyn trywydd mwy ystwyth ac ymatebol wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i dargedu cyllid (hy pa weithgareddau a ariennir a phryd) yn ystod oes y cynllun.
- 5.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ym maes Polisi Cyllido i ymgysylltu â'r sector, llywio penderfyniadau gwariant a gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

6.1 Opsiwn 1 – Gwneud dim

Dan yr opsiwn hwn, ni fyddai gan Weinidogion Cymru bwerau penodol i roi cymorth ariannol i'r sectorau morol a physgodfeydd yng Nghymru.

6.2 Opsiwn 2 – Deddfu i sefydlu cynllun cymorth ariannol newydd ar gyfer y sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu yng Nghymru

Mae'r opsiwn hwn yn darparu rhywbeth yn lle'r CMPHE ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth ariannol i'r sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu yng Nghymru. Hwn yw'r opsiwn a ffeifrir.

6.3 Opsiwn 3 - Ail-greu'r CMPHE yng Nghymru

Hwn yw'r senario 'Busnes fel arfer', gyda Chymru'n ail-greu'r CMPHE. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried yn ymarferol nawr bod y DU wedi gadael yr UE, yn bennaf oherwydd y byddai'n rhaid wrth gydweithrediad ac ymrwymiad cyllidebol dros gyfnod o saith i ddeng mlynedd gan Lywodraeth y DU. O ganlyniad, nid yw'r opsiwn hwn wedi'i ystyried ymhellach.

7. Rhesymeg dros ddyluniad y cynllun

7.1. Mae paragraff 2 Atodlen 6 o Ddeddf Pysgodfeydd y DU 2020 yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru greu cynlluniau cymorth ariannol mewn perthynas â Chymru, Cychod Cymru a Pharth (Economaid Neilltuedig) Cymru drwy is-ddeddfwriaeth. Ystyrir mai defnyddio'r ddeddfwriaeth hon yw'r ffordd fwyaf realistig o ddarparu cyllid i'r sectorau Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu.

7.2. Fel y soniwyd uchod, mae rhanddeiliaid wedi rhoi adborth i Lywodraeth Cymru ynghylch gweithredu'r CMPHE yng Nghymru drwy ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd, trwy grwpiau cynghori rhanddeiliaid ac yn anffurfiol. Ystyrir bod yr CMPHE, o ran ei gwmpas cyffredinol, yn gadarnhaol ond cymysg fu'r farn ynghylch y ffordd y cafodd yr CMPHE ei rheoli yng Nghymru.

7.3. Byddai angen i unrhyw gynllun newydd ymdrin ag ansicrwydd cyd-destunol mawr, gan gynnwys:

7.3.1. Y tu allan i'r UE, mae'r DU yn cael gwneud cytundebau masnach newydd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cael dylanwadu ar natur cytundebau masnach newydd felly rhaid iddi dderbyn pa beth bynnag a ddaw o drafodaethau Llywodraeth y DU. Mae cytundebau masnach eisoes wedi'u gwneud ag Awstralia, Seland Newydd a'r CPTPP.

7.3.2. Nid oes gan awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop a'r fframwaith a ddarperir gan gyfraith bresennol yr UE bellach ddylanwad sylweddol

ar y ffordd y caiff cyllid ei ddarparu yng Nghymru (ac eithrio o dan Ddeddf Masnach a Chydweithredu'r UE-DU).

- 7.3.3. Mae Sefydliad Masnach y Byd wedi bod yn trafod cytundeb ar gymorthdaliadau pysgodfeydd ers blynyddoedd lawer. Ym mis Mehefin 2022, gwnaed cytundeb sy'n cyfyngu cymorthdaliadau i bysgotwyr stociau sydd wedi'u gor-bysgota ac i bysgota anghyfreithlon, heb ei adrodd a heb ei ddogfennu (IUU).
 - 7.3.4. Mae trefn Rheoli Cymhorthdal newydd Llywodraeth y DU yn gymhleth ac mae ganddi ofynion gweithdrefnol sylweddol. Mae ganddi fwy o botensial i gyfyngu na threfn cymorth gwladol yr UE ond ni ddaw hynny'n amlwg am flynyddoedd lawer.
 - 7.3.5. Gallai agwedd Llywodraeth y DU at 'godi'r gwastad' gan ddefnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 i ddarparu cyllid yng Nghymru ar bynciau sydd wedi'u datganoli, fel Moroedd a Physgodfeydd, achosi dryswch. Heb wybodaeth glir a chynnar gan Lywodraeth y DU o ran sut, pryd a pha wariant fydd yn cael ei neilltuo i faterion datganoledig, mae'n anodd cynllunio ymyriadau fydd yn cael yr effaith fwyaf fesul punt.
 - 7.3.6. Er y gall Llywodraeth Cymru bennu'r gyllideb ar gyfer buddsoddi mewn Moroedd a Physgodfeydd, yn ymarferol bydd faint o arian sydd ar gael i'w ddyrannu yn dibynnu ar benderfyniadau cyllidol Llywodraeth y DU a sut y caiff hyn ei drosglwyddo i Gymru.
 - 7.3.7. Mae'r Moroedd a Physgodfeydd yn sector a marchnad fyd-eang. Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at newidiadau annisgwyl ar lefel ddomestig a rhyngwladol. Amharwyd ar gadwyni cyflenwi byd-eang. Effeithiwyd ar gyllid cyhoeddus. Mae rhai newidiadau oedd eisoes ar y gweill, fel arferion gweithio a theithio (sy'n effeithio ar fwyd a'r amgylchedd), wedi cyflymu. Nid oes modd rhagweld holl effeithiau economaidd a chymdeithasol y pandemig a llacio'r cyfyngiadau.
 - 7.3.8. Yn fwy diweddar, mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi effeithio'n sylweddol ar gost mewnbynnau fel tanwydd, ynni a bwyd.
- 7.4. Ystyriwyd pob agwedd ar yr ansicrwydd hyn wrth ddylunio trefn newydd ar gyfer darparu cymorth ariannol yng Nghymru i fuddsoddi yn niwydiant morol a physgodfeydd Cymru. Y nod oedd ceisio creu cynllun cymorth ariannol hyblyg fel bod modd newid cyd-destun polisi, deddfwriaethol a chyfansoddiadol y cynllun ar ei hanner. Bydd hynny'n osgoi'r risg o fethu â chydymffurfio â rheolau'r DU a rhyngwladol.

8. Costau a manteision

8.1 Opsiwn 1 – Gwneud dim

Nid oes costau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Ond o dan yr opsiwn hwn, ni fyddai gan Weinidogion Cymru bwerau penodol i roi cymorth ariannol i'r sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu. Mae hyn yn golygu y gallai busnesau a sefydliadau yng Nghymru fod o dan anfantais o'u cymharu â'r rheini yn rhannau eraill y DU, lle ceir cynlluniau cymorth ariannol.

8.2 Opsiwn 2 – Deddfu i sefydlu cynllun cymorth ariannol newydd ar gyfer y sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu yng Nghymru.

Costau gweinyddol

- 8.3 Bydd 'rowndiau ariannu' neu ffenestri ymgeisio ar gyfer amcan neu thema benodol yn cael eu trefnu. Mae lle i newid rhywfaint ar y drefn i gyflawni'r amcan orau ar raddfa sy'n cyfateb i'r ymrwymiad ariannu disgwylidig.
- 8.4 Y bwriad yw gallu adolygu gyllideb y Cynllun o bryd i'w gilydd i gyd-fynd ag amserlen cyllidebau ac adolygiadau gwariant Llywodraeth y DU dros gyfnod o flynyddoedd. Er enghraifft, dyrannwyd gan Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU fis Tachwedd 2021 £6.2m ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 i 2025/26.
- 8.5 Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu sut caiff y cyllid hwn ei ddyrannu ac mae ganddyn nhw'r opsiwn i gynyddu'r dyraniad o gronfeydd eraill. Ar hyn o bryd, nid oes penderfyniad pendant wedi'i wneud ynghylch y dyraniad ariannol terfynol ac mae manylion y rowndiau ariannu cyntaf wrthi'n cael eu datblygu. Gallai'r cyfan gael ei ddyrannu mewn un rownd ariannu mewn un flwyddyn ariannol neu ei rannu rhwng mwy nag un rownd ariannu ac â blaenoriaethau gwariant eraill.
- 8.6 Rhagwelir y bydd nifer o rowndiau ariannu bob blwyddyn ariannol ond bydd hyn yn dibynnu ar gyllideb, amcanion a phoblogrwydd y cynllun. Mae hwn yn asesiad cychwynnol ac mae'n hyblyg gan ddibynnu ar y gyllideb a'r adnodd sydd ar gael ar gyfer gweinyddu'r cynllun.
- 8.7 Wrth ddatblygu pob rownd ariannu, bydd swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i gasglu barn y sector, nodi blaenoriaethau a dysgu gwersi o rowndiau ariannu blaenorol.
- 8.8 Taliadau Gwledig Cymru (RPW) fydd yn rhedeg y cynllun. Bydd hynny'n sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau llywodraethu mewnol ond gan gadw hyblygrwydd o ran ei gynnal. Amcangyfrifir y bydd cost gweinyddu'r cynllun rhwng pump y cant a deg y cant o gyllideb y cynllun. Y rheswm am yr ystod yw'r gwahanol brosesau y gellir eu defnyddio.
- 8.9 Mae'n bwysig nodi mai dim ond rhan o'r cynllun yw'r rowndiau ariannu unigol a chan y gallai pob rownd ariannu dargedu amcanion gwahanol a defnyddio dulliau gwahanol gan ddibynnu ar yr amcanion hynny, nid yw'n realistig rhagdybio cyfanswm cost y cynllun o'r cychwyn cyntaf.

8.10 Gan ddefnyddio'r fethodoleg hon, mae swyddogion yn ceisio sicrhau bod cost darparu cymorth ariannol drwy'r cynllun yn gymesur â'r arian sydd wedi'i ymrwymo mewn unrhyw rownd ariannu, blwyddyn ariannol ac amserlen y gyllideb.

Costau i randdeiliaid

8.11 Bydd costau amser a gweinyddol i'r busnesau a'r sefydliadau sy'n dewis gwneud cais am gyllid drwy'r cynllun ond nid yw'n bosibl mesur y costau hyn ar hyn o bryd. Y bwriad yw i'r gofynion ymgeisio fod yn gymesur â'r lefel o gyllid y gofynnir amdani. Ar gyfer model 'costau safonol' symlach, gallai gael ei wneud yn eithaf cyflym (h.y. cost cyfle). Ar gyfer ceisiadau mwy cymhleth, byddai angen mwy o amser i gyfiawnhau buddsoddiad Llywodraeth Cymru i sicrhau gwerth am arian.

8.12 Mae'r Cynllun yn un gwirfoddol. Y disgwyl yw na fydd pobl yn ymgeisio amdano oni bai eu bod yn meddwl bod y manteision ariannol yn fwy na chost gwneud cais. Ni fydd cost uniongyrchol i fusnesau fydd ddim yn cymryd rhan yn y cynllun.

8.13 Bydd yr asesiad o bob cais yn ystyried gwerth am arian cyn bod grant neu fenthyciad yn cael ei wneud. Hefyd, caiff pob rownd ariannu ei gwerthuso i ddysgu gwersi ac i dargedu a rhedeg rowndiau ariannu dilynol yn well. Mae hyn yn rhan annatod i'r cynllun.

Manteision

8.14 Mae natur hyblyg y cynllun, gyda rowndiau ariannu'n cael eu cynnal yn ôl y gofyn i gwrdd â blaenoriaethau ac amcanion penodol, ynghyd â'r ansicrwydd ynghylch faint o gyllid sydd ar gael a faint fydd yn cymryd rhan, yn golygu na allwn asesu'n llawn fanteision y cynllun ar hyn o bryd. Mae'r enghraifft yn yr adran isod yn rhoi darlun o'r manteision posibl a ddaw o'r cynllun.

8.15 Yn ogystal, nid oes gwerthusiad terfynol wedi'i gynnal o effeithiau'r CMPHE. Yng Nghymru roedd y Gronfa'n dal ar agor ar gyfer ceisiadau mor ddiweddar â mis Mehefin 2022 a bydd modd hawlio cyllid tan ddiwedd 2023. Nid oes asesiad swyddogol o fanteision yr CMPHE ar gael felly i helpu i asesu effaith y Rheoliadau hyn.

8.16 Un o fanteision y Cynllun yw rhoi cymorth i randdeiliaid Cymru tebyg i'r cymorth y gall gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill ei roi, gan gydnabod bod sectorau, gofynion deddfwriaethol, nodau gwleidyddol a maint yn wahanol.

9. Enghraifft ddarluniadol

9.1. Byddai enghraifft ddarluniadol yn rownd ariannu â galwad agored ar i bobl ymgeisio i gefnogi prosiectau neu weithgareddau a fyddai'n gwella'r defnydd o ynni a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd. Byddai holl fanylion y cynllun yn cael eu cyhoeddi yn unol â'r Rheoliadau hyn gan

gynnwys: ei amcan, meini prawf ynghylch pwy sy'n gymwys, cyfradd y grant/benthyciad, gofynion o ran arian cyfatebol, y grant/benthyciad mwyaf a roddir, yr amodau, dyddiad cau ar gyfer gwneud cais ac i hawlio arian. Gallai rownd o'r fath, er enghraifft, roi sylw arbennig i brosiectau ymchwil i brofi datgarboneiddio a dal a storio carbon neu gall fod yn agored i bob ymgeisydd cymwys ddisgrifio'r prosiect y mae angen cymorth ar ei gyfer ac egluro sut mae'n bodloni amcanion y rownd ariannu. Byddai'r asesiad o'r ceisiadau yn ystyried cryfder y dystiolaeth a'r cynllun i gynnal gweithgareddau neu brosiectau y gofynnir am arian ar eu cyfer.

9.2. Yna byddai trefn ymgeisio a meini prawf asesu yn cael eu dewis i gyflawni amcan yr ariannu orau. Gallai'r enghraifft uchod olygu trefn ymgeisio dau gam. I ddechrau, gallai'r cam datgan diddordeb gadarnhau'r ffit strategol ag amcanion y Cynllun, ei ymarferoldeb a'i werth am arian cyn gofyn am gyflwyno cais manylach i asesu'r prosiect yn erbyn meini prawf technegol.

9.3. Byddai'r budd o'r cyllid yn y senario hon yn dod o weithgareddau uniongyrchol sy'n lleihau dirywiad yn yr hinsawdd a/neu dystiolaeth newydd i lywio ymyriadau yn y dyfodol.

10. Asesu'r Gystadleuaeth

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Atebwch Oes/na
C1: A oes gan y busnes gyfran o fwy na 10% o'r farchnad y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni?	na
C2: A oes gan unrhyw fusnes gyfran o fwy nag 20% o'r farchnad y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni?	na
C3: A oes gan y tri busnes mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran o'r farchnad y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni?	na
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai busnesau'n fwy na'i gilydd?	na
C5: A fydd y rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint busnesau?	na
C6: A fyddai'r rheoliad yn cynyddu'r costau sefydlu ar gyfer cyflenwyr newydd neu bosibl nad yw cyflenwyr heddiw'n gorfod eu hysgwyddo?	na
C7: A fyddai'r rheoliad yn cynyddu'r costau parhaus ar gyfer cyflenwyr newydd neu bosibl nad yw cyflenwyr heddiw'n gorfod eu hysgwyddo?	na
C8: A yw'r sector yn un y ceir newid technolegol cyflym ynddo?	na
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch?	na

10.1 Os mai 'na' yw'r ateb i bob cwestiwn, mae'n annhebygol y bydd y Rheoliad hwn yn cael effaith sylweddol ar y gystadleuaeth.

11. Ei adolygu ar ôl ei roi ar waith

11.1 Bydd rowndiau ariannu'r Cynllun yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn dysgu gwersi a gwella ymyriadau yn y dyfodol. Mae swyddogion yn rhagweld y bydd adolygiad tymor hirach o'r Cynllun a'r Rheoliad hefyd yn cael ei gynnal ar gyfnodau strategol, rhwng cyfnodau'r gyllideb, fel rhan o'r broses gyllidebu. Bydd hynny'n sicrhau bod y cynllun yn cael ei werthuso gydol ei oes er mwyn i welliannau allu cael eu gwneud. Bydd y gwerthusiadau'n ystyried yr effeithiau a'r manteision a ddaw o'r CMPHE a'r Cynllun hwn.